| Cyfeirnod Archwiliad y Llwybr | Mapiau Llwybrau Presennol Ceredigion Datganiad ac Esboniad Tachwedd 2017 |
|---|---|
| **Aberystwyth** | |
| **CCC-ABER13-CP Parc yr Onnen i Lwybr Rheidol** | Llwybr defnyddiol o ardal Llanbadarn i Lwybr Rheidol a rhwydwaith ehangach Aberystwyth. Mae'r llwybr o dan anfantais oherwydd bod yr wyneb anaddas a diffyg gwaith cynnal a chadw o'i gwmpas. Bwriedir lledu'r llwybr lle bo modd, rhoi wyneb addas arno a chysylltu'r llwybr trwy Barc yr Onnen, os bydd arian ar gael. Mae angen gwell arwyddion ar gyfer y llwybr beicio ar gyffordd cefnffordd yr A44. Bydd angen dod â Llywodraeth Cymru i mewn i wneud hynny. |
| **CCC-ABER30-CP Promenâd - yr Harbwr i Ffordd y Môr** | Mae hwn yn llwybr hwylus iawn sy'n cysylltu Llwybrau Ystwyth a Rheidol a'r Promenâd a chanol y dref. Mae prinder arwyddion addas drwyddi draw ac mae'r rhan ddeheuol, lle mae traffig i'r ddau gyfeiriad a cheir wedi parcio, yn gul (oddeutu 3.5m o led ar hyd 170m o'r lôn gerbydau), er mai araf yw'r traffig. |
| **CCC-ABER15-FW Dolen gyswllt Stryd y Bont i Lwybr Rheidol** | Llwybr cyswllt ddefnyddiol sydd mewn cyflwr da ar y cyfan, ac yr oedd defnydd mawr arno ar adeg yr archwiliad. Yr unig reswm na phasiodd y llwybr hwn oedd oherwydd ei fod yn serth iawn (gallai hynny achosi problemau i bobl sydd â thrafferthion symudedd) a'i fod ger ffordd brysur. |
| **CCC-ABER19-FW (Ffordd Penglais o'r gyffordd â'r A44 i'r gyffordd â Heol Waunfawr)** | Llwybr prysur o ganol y dref i'r Brifysgol. Collodd y llwybr hwn farciau am ei fod yn serth a bod llawer o draffig ond doedd dim llawer y gellid ei wneud am hynny. |
| **CCC-ABER21-FW Dan Dre a Ffordd Alexandra (A487)** | Dyma lwybr defnyddiol sy'n cysylltu canol y dref a'r orsaf drenau/bysiau â Ffordd Penparcau Mae llawer iawn o draffig ar gefnffordd yr A487 a throedffyrdd cul Dan Dre (1.2m mewn un man, y rhan fwyaf yn fwy nag 1.5m o led dros 100m) ond nifer isel o gerddwyr sy'n ei ddefnyddio. |

| **Aberteifi** | |
|---|---|
| **CCC-CAR02-SUP Llwybr y Cardi Bach i Barc Bywyd Gwyllt Cilgerran** | Mae hwn yn llwybr poblogaidd ac mae'n rhan o Lwybr 82 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol. Mae'n mynd hyd at ardal ddiwydiannol Heol yr Orsaf. Mae nifer o fannau cul ger Stryd y Castell lle mae angen bod yn ystyriol o bobl eraill pan fo'r defnydd ar ei anterth, ond ar y cyfan defnydd isel sydd. |
| **CCC-CAR12-SUP A487 (o'r gyffordd â Heol Aberystwyth B4548 i gylchfan Pont-y-Cleifion)** | Llwybr beicio newydd sy'n cysylltu cymunedau â chyfleusterau o'r gogledd i'r de ac fel arall. Mae diffyg arwyddion cyfeirio ac arwyddion at gyrchfannau, ynghyd â'r arwyddion i gyfeiriad y de sy'n dweud wrth bobl am ddod oddi ar eu beiciau, yn golygu bod beicwyr yn gorfod ffeindio eu ffordd eu hunain at lôn gerbyd brysur. Byddai arwyddion i gyfeirio pobl at Lwybr y Cardi Bach yn fuddiol hefyd. |
| **CCC-CAR05B-FW Maes yr Haf** | Mae hwn yn llwybr byr ond cymharol dawel sy'n ddolen gyswllt bwysig â'r ysgol a'r cyfleusterau hamdden sydd yn Stryd Napier. Byddai rhoi wyneb newydd ar y troedffyrdd a'u lledu yn ei gwneud hi'n haws o lawer dod i Gerddi Napier. |

GOLUD·GWLAD·RHYDDID
Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council